

**Ar ddydd Mawrth, 18 Ionawr 2011 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm**

**PRESENNOL:** Cyng. T Davies (Cadeirydd); Mrs E Davies; DM Hughes; R Owen; DR Morgan; D Sheppard; Mrs G Price; T Lewis; M Evans a'r clerc. **Roedd y Cyng. Sir D Suter hefyd yn bresennol**

**2956** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth Y Cyng. D Jones

**2957** **Materion Personol:** Mynegwyd cydymdeimlad â chyn-aelod o'r Cyngor, Mrs Connie Evans a'i theulu ar eu profedigaeth ddiweddar.

**2958** **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol: Cofnod 2973 - Ceisiadau am grantiau**

Datganodd yr aelodau fuddiant rhagfarnol yn y Grwpiau/Sefydliadau maent yn gysylltiedig â nhw ac ni wnaethant gymryd rhan yn y trafodaethau oedd yn ymwneud â'r ceisiadau hynny:

T Davies: GDYT; Cae Chwarae Penbontrhydybeddau

Mrs E Davies: Grŵp 60+ Trefeurig. DM Hughes: Cylch Meithrin

Mrs G Price: Cylch Meithrin; PATRASA; Clwb Cŵl; Neuadd y Penrhyn; Cartref Tregerddan

DR Morgan: PATRASA; Neuadd y Penrhyn; Cartref Tregerddan

T Lewis: PATRASA; Neuadd y Penrhyn. M Evans: Neuadd y Penrhyn

**2959** **Cadarnhau Cofnodion:** Yn amodol ar gynnwys enw'r Cyng. Mrs G Price yng Nghofnod 2939 PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2010 fel cofnod cywir. Ni chafwyd ymateb gan Adran Briffyrdd Ceredigion i'r gwahanol ymholiadau am finiau graean.

Mynegodd yr aelodau eu hanfodlonrwydd gyda'r diffyg graeanu a'r ffaith bod Ceredigion yn gwrthod darparu biniau graean mewn ardaloedd oedd yn dioddef llawer oherwydd rhew ac eira. Nododd Y Cyng. Sir D Suter y cwynion a chytunodd i'w pasio mlaen. Ni chafwyd unrhyw ymateb ynghylch y gwrychoedd sydd wedi gordyfu ac yn cuddio goleuadau'r llwybr troed ar ffordd Bontgoch.

**2960** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**

**Hen Ysgol Trefeurig:** Adroddodd y Cyng. T Davies fod y brydles ar yr Hen Ysgol yn dod i ben ym mis Mawrth. O hynny 'mlaen bydd yn rhaid i'r Grŵp Datblygu un ai brydlesu'r adeilad am rent uchel neu ei brynu. Y pris gofynnol yw £140,000 a gwneir cais am grant loteri. Dymunodd y Cyngor yn dda i'r Grŵp yn eu hymdrechion i brynu'r adeilad a'i gadw fel Canolfan Cymunedol.

**2961** **Ymdeoliad y Clerc:** Bydd y clerc yn ymddeol ar 31 Mawrth 2011 ar ôl 37 mlynedd gyda'r Cyngor. 5 fel Cynghorydd, 32 fel Clerc. PENDERFYNWYD hysbysebu'r swydd yn y Cambrian News.

**2962** **Cadw Llyfrau Cofnodion y Cyngor 1945-2008 mewn man diogel:** Cedwir Cofnodion y Cyngor 1894 – 1945 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Am nad yw'n bolisi gan y Llyfrgell Genedlaethol i dderbyn Llyfrau Cofnodion Cynghorau bellach, maent yn awgrymu bod Cofnodion Trefeurig 1945-2008 yn cael eu cynnig i Archifau Ceredigion i'w cadw'n ddiogel, ac er mwyn cadw'r cyfan gyda'i gilydd, bydd y Llyfrgell yn rhyddhau'r Llyfrau Cofnodion sydd ganddyn nhw er mwyn cadw'r casgliad cyfan yn Archifau Ceredigion. PENDERFYNWYD diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol am eu cyngor defnyddiol; derbyn eu cynnig a chynnig y casgliad i Archifau Ceredigion

**Dalennau Rhydd Cofnodion y Cyngor: Saesneg o Fehfin 1979 a Chymraeg o Mai 2008:**

PENDERFYNWYD holi i Archifau Ceredigion a ddylid rhwymo'r Cofnodion sydd ar ddalennau rhydd cyn eu trosglwyddo.

**Gohebiaeth**

**2963** **Un Llais Cymru:** Mewn ymateb i ymholiad ynghylch yswiriant cerbydau a theithwyr ar gyfer aelodau oedd yn mynychu cyfarfodydd ar ran, neu'n gysylltiedig â'r Cyngor Cymuned, y cyngor a roir yw y byddai'n ddoeth hysbysu'ch cwmni yswiriant o'r defnydd yma. PENDERFYNWYD nodi hynny.

**2964** **Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith Ceredigion:** Hysbysiad er gwybodaeth bod cais yn cael ei ystyried i ganiatáu hawl tramwyo i Brifysgol Aberystwyth i gael mynediad i'w thir yng Nghapel Dewi, trwy'r lôn dan glo sy'n gartref i Storfa'r Cyngor. PENDERFYNWYD ei nodi.

**2965** **Cynllun Grant Toiledau Cymunedol:** Hysbysiad gan Ceredigion ynghylch grant o hyd at £500 yn daladwy i fusnesau lleol sy'n fodlon darparu Toiledau Cymunedol yn ôl amodau. PENDERFYNWYD anfon copi o'r llythyr ymlaen i Garej Penrhyncoch a'r Clwb Pêl-droed (parthed yr Ystafelloedd Newid).

**2966** **Pwyllgor Safonau Ceredigion:** Rhybudd o newid i gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau, a rhestr o ddyddiadau'i gyfarfodydd. PENDERFYNWYD ei nodi.

**Materion Ariannol**

**2967** **BDO LLP Accountants - Cwblhau Archwiliad:** Hysbysiad gan yr Archwilwyr bod yr Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 wedi'i gwblhau a bod 'Dim materion oedd yn gofyn am adroddiad ar wahân'. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol wedi'i chwblhau a'i harwyddo i'r Cyngor. PENDERFYNWYD (i) arddangos yr Hysbysiad ynghylch Cwblhau'r Archwiliad am bedwar diwrnod ar ddeg (ii) Gadael y dewis o ddyddiadau ar gyfer archwiliad 2010/11 i'r clerc newydd.

**Talu Biliau**

**2968** **BT:** Yn unol â Chofnod 2951 talwyd bil BT am y ffôn swyddfa hyd 10.12.10 ar 29.12.10: £89.15 + TAW £14.81: **£103.96** siec 1022

- 2969 **A Hughes** : Yn unol â Chofnod 2951 talwyd am waith cynnal a chadw brys ar 29.12.10: **£95** siec 1023  
 2970 **BDO LLP** Talu am archwiliad 2009/10: £135 + TAW £23.63: **£158.63** siec 1024  
 2971 **L Griffiths**: Talu am waith cyfieithu Rhagfyr 2010: **£28.71** siec 1025  
 2972 **P Walker**: Treuliau'r clerc Hyd/Rhag 2010: Post ac arian parod £48.13 + teithio £49.28: **£87.41** siec 1026  
 2973 **Ceisiadau am Grantiau ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31.03.11 – Cyllideb £3,500** (uchafswm taladwy £8,105)

Cyflwynwyd y ceisiadau a dderbyniwyd i'r Cyngor eu harchwilio. **PENDERFYNWYD** cyfyngu rhodd-daliadau i sefydliadau lleol + Ambiwylans Awyr Cymru. Roedd y symiau a ddyrannwyd fel a ganlyn:

<u>Ymgeisydd</u>	<u>Prosiect</u>	<u>Rhodd</u>	<u>Pŵer</u>	<u>Rhif</u>
		<u>£</u>		<u>Siec</u>
<b>Grŵp Datbl.Ysgol Trefeurig</b>	Costau cyfreithiol - cais am fenthyciad	<b>250</b>	CLIL72 a133	1027
<b>Grŵp 60+ Trefeurig</b>	Hyrwyddo cyswllt cymdeithasol	<b>150</b>	CLIL72 a137	1028
<b>Cae Chwarae Penbont</b>	Cynnal a chadw/offer newydd	<b>250</b>	CLIL(DA)76 a19	1029
<b>Cylch Meithrin Trefeurig</b>	Offer	<b>150</b>	CLIL72 a137	1030
<b>PATRASA</b>	Offer/costau cynnal a chadw	<b>250</b>	CLIL(DA) a19	1031
<b>Clwb Pêl-droed P/coch</b>	Hyrwyddo pêl-droed i ieuencid	<b>400</b>	CLIL(DA)76 a19	1032
<b>Clwb Cŵl P/coch</b>	Cynnal a chadw'r portacabin	<b>250</b>	CLIL(DA)76 a19	1033
<b>Neuadd y Penrhyn</b>	Cynnal a chadw ac yswiriant	<b>750</b>	CLIL72 a133	1035
<b>Grŵp Ymddeolwyr P/Coch</b>	Offer ystafell gyfarfod	<b>150</b>	CLIL72 a137	1036
<b>Brownies Penrhyncoch</b>	Prosiectau cymunedol	<b>100</b>	CLIL72 a137	1038
<b>Cartref Tregerddan</b>	Cymorth trigolion	<b>250</b>	CLIL72 a137	1039
<b>Y Tincer</b>	Costau cynhyrchu	<b>250</b>	CLIL72 a137	1040
<b>Ambiwylans Awyr Cymru</b>	Cynnal y gwasanaeth	<b>300</b>	CLIL72 a137	1041

2974 **Crynodeb o'r Derbynebau a'r Taliadau a Datganiad Cysoni'r Banc hyd 31.12.10 (Amg. 1)**

Rhoddwyd copi o'r derbynebau a'r taliadau o 1 Ebrill hyd 31 Rhagfyr 2010 i bob aelod. Roedd yn dangos balans agoriadol o £3,057.55 a derbynebau o £14,464,09 llai gwariant £6,219.17 gan roi **balans o £11,302.47** Cadarnhawyd hyn gan ddatganiad cysoni'r banc.

Cyflwynwyd yr holl ddogfennau perthnasol i'r Cyngor eu gwirio. **PENDERFYNWYD** derbyn y ffigyrau.

2975 **Adolygiad o'r gyllideb hyd 31.12.10 ac amcangyfrif o'r gwariant hyd 31.03.11 (Amg. 2)**

Mae'r gyllideb am y flwyddyn ariannol bresennol yn £15,500 (ariannir gan archebiant o £13,000 a £3,000 a ddygwyd ymlaen), wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:-

**£4,500 – rhodd-daliadau gan gynnwys £1,000 ar gadw ar gyfer cronfa adeilad y Cylch Meithrin;**

Dyfarnwyd £3,500 mewn grantiau yn y cyfarfod heddiw.

Bydd y £1,000 ar gadw ar gyfer cronfa adeilad y Cylch Meithrin yn cael ei ddwyn ymlaen i 2011/12

**£1,500 cronfa wrth gefn:** Bydd y swm yma'n cael ei ddwyn ymlaen i gyllideb 2011/12

**£1,500 gwariant cyfalaf:** Clustnodwyd y swm yma ar gyfer diweddaru'r offer swyddfa a darparu'r clerc gyda band eang. Am fod y clerc yn ymddeol ar 31 Mawrth 2010 **PENDERFYNWYD** gadael y dewis o offer i'r clerc newydd yn y flwyddyn ariannol nesaf ac ychwanegu'r £1,500 yma at y gronfa ar gadw ar gyfer adeilad newydd i'r Cylch Meithrin.

**£8,000 gwariant cyffredinol:** Gwariwyd £6,219 o'r gronfa yma hyd at 31 Rhagfyr 2010. Rhagwelir y bydd angen £1,544 i gwrdd â'r costau hyd ddiwedd Mawrth 2011; bydd hyn yn gadael balans o tua £237

**Amcangyfrif o'r balans i'w ddwyn ymlaen ar 31 Mawrth 2011:**

**Cronfa ar gadw ar gyfer adeilad y Cylch Meithrin- £2,500 + Cronfa Wrth Gefn- £1,500: (£4,000)**

+ balans gwariant cyffredinol **£237** + cyfanswm derbynebau **£1,464** a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol (ad-daliad TAW £297; llog banc a rhenti £63; ac ad-daliad teithio ac yswiriant £1,104). **Y cyfanswm i'w ddwyn ymlaen fydd oddeutu: £5,701**

2976 **Adolygiad o'r Gwariant am y flwyddyn ariannol bresennol ac ystyried cyllideb 2011/12 fel sail ar gyfer yr archebiant. (Amg 3):**

Mae Amg 3 yn gosod gwariant cyffredinol eleni yn erbyn costau tebygol y flwyddyn nesaf. O gymhwyso'r ffigyrau ar gyfer cynnydd tebygol mewn taliadau, lwfans ychwanegol ar gyfer Cyrsiau Hyfforddi, ond dim taliadau cyfieithu, mae angen o leiaf £6,500 i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr angen i ymestyn yr oriau a weithir gan y clerc, i gwrdd â'r cynnydd yn y llwyth gwaith.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cadw'r gyllideb ar ei lefel bresennol a chaniatáu:-

**£8,000 am Wariant Cyffredinol**

**Bydd y Gronfa Wrth Gefn yn aros yn £1,500** a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen o 2010/2011

**£1,500 ar gyfer Gwariant Cyfalaf** i gwrdd â chostau offer swyddfa

**Rhodd-daliadau £3,500** ar gyfer grantiau dan Adran 137 CLIL neu bwerau awdurdodedig eraill

Bydd y £2,500 sydd ar gadw ar gyfer Cronfa Adeilad y Cylch Meithrin yn cael ei ddwyn ymlaen o 2010/11.

2977 **PENDERFYNWYD felly Archebu £13,000 gan Ceredigion am y flwyddyn ariannol 2011/2012**

Dylai'r archebiant o £13,000 ynghyd â'r swm a ddygir ymlaen fod yn ddigon i gwrdd ag anghenion y Cyngor yn y flwyddyn ariannol nesaf. Hawlir ad-daliad TAW o tua £270.

## **Cynllunio**

### **2978 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022**

Cyn y Cyfarfod yma, derbyniwyd dogfennau'n ymwneud â'r Cynllun Datblygu. Pasiwyd y rhain ymlaen i'r Cyng. R Owen eu darllen a'u crynhoi. Gan wneud sylwadau ar y dogfennau a'r cynlluniau ar gyfer Cymuned Trefeurig, ailadroddodd y Cyngor y gwrthwynebiad a fynegwyd wrth ystyried y cynllun drafft yng Nghyfarfod Mai 2010, sef bod y safleoedd datblygu ym Mhenrhyncoch ar gyfer gosod 64 o dai arfaethedig yn cael eu lleoli ar ben dwyreiniol y pentref.

Nid yw hyn yn cwrdd â meini prawf cynladwyedd Ceredigion, sef na ddylai unrhyw ddatblygu fod yn bellach na 400 metr o'r prif gyfleusterau cymunedol e.e. siopau, ysgol, garej etc. a bod y cyfleusterau hyn o fewn pellter cerdded. Mae'r safleoedd arfaethedig tua dwywaith y pellter yma ac i fyny'r rhiw. Pryder arall yw y byddai datblygu ar y raddfa hon yn arwain at gynydd sylweddol ym maint y traffig ar hyd y ffordd gul trwy'r pentref, a ddefnyddir i gyrraedd y siopau a'r ysgol gynradd, sydd heb lwybr troed mewn mannau.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cyng. R Owen yn cwblhau holiadur yr ymgynghoriad a'i ddychwelyd i Geredigion cyn 17 Chwefror 2011.

**2979 Penderfyniadau Cynllunio:** Nodwyd bod caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer A100846 - estyniad i Gwarcaeau, Salem

**2980 Sylwadau ar Gais Cynllunio A101001: Estyniad i Blaencastell, Penrhyncoch:** Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad hwn.

**2981 Cyfarfod Nesaf y Cyngor:** PENDERFYNWYD gohirio hwn hyd **22 Chwefror 2011 yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm.** Bydd hynny'n rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer swydd y clerics

**2982 Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda:**

Gormod o ddŵr yn llifo ar wyneb y briffordd y tu allan i Ysgol Trefeurig  
Ffos angen ei chlirio ger Garej Cwrt, Penrhyncoch.

Biniau baw cŵn yn y cae chwarae ddim yn cael eu gwagio'n ddigon aml.

Salem: Cais i ysgubo ymyl y ffordd a symud glaswellt o ganol y ffordd am fod perygl i feicwyr modur lithro arno.  
Daeth y Cyfarfod i ben am 9.25pm.